PAM DEWIS TGAU

# Ffrangeg/Almaeneg/Sbaeneg

Mae TGAU CBAC mewn Ffrangeg/Almaeneg/Sbaeneg wedi'u cynllunio i'ch galluogi i ddefnyddio ieithoedd mewn ffyrdd ystyrlon. Byddwch yn dysgu sut i ddeall yr iaith a chyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig mewn lleoliadau realistig. Byddwch yn datblygu ymwybyddiaeth o ddiwylliant a chymdeithas y gwledydd a'r cymunedau lle mae'r iaith yn cael ei siarad ac yn gwneud cysylltiadau â'ch iaith a'ch diwylliant eich hun.

## BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Mae 4 uned i'r cwrs. Asesir dwy mewn arholiadau yn y flwyddyn astudio olaf. Cwblheir y ddwy uned arall fel asesiadau di-arholiad yn eich ystafell ddosbarth, hefyd yn y flwyddyn astudio olaf. Byddwch yn dysgu iaith ddefnyddiol y gallech ei defnyddio mewn sefyllfaoedd sy'n ymwneud â hamdden a llesiant, teithio ac astudio neu weithio.

## SUT BYDDAF YN CAEL FY ASESU?

### UNED 1 – Llafaredd

Mae Uned 1 yn asesiad di-arholiad o siarad a gwrando a bydd yn cael ei gynnal gan eich athro. Yn gyntaf, byddwch yn darllen brawddeg fer yn uchel i ddangos eich dealltwriaeth o ynganu yn Ffrangeg/Almaeneg/Sbaeneg. Yna byddwch yn cymryd rhan mewn chwarae rôl. Ar ôl hyn, byddwch yn rhoi cyflwyniad byr un munud y byddwch wedi'i baratoi ymlaen llaw ac yn cael trafodaeth fer gyda'ch athro am eich cyflwyniad. Yn olaf, byddwch yn cymryd rhan mewn sgwrs fer gyda'ch athro. Mae'r uned hon werth 30% o'r cymhwyster.

### UNED 2 – Darllen ac Ysgrifennu

Mae Uned 2 hefyd yn asesiad di-arholiad y byddwch yn ei gwblhau yn eich ystafell ddosbarth. Gyda'ch cyd-ddisgyblion, byddwch yn astudio darn byr o waith (naill ai nofel graffig, stori fer, sgript ffilm neu nofel) yn Ffrangeg/Almaeneg/Sbaeneg. Yna byddwch yn ysgrifennu ymateb ysgrifenedig (hyd at 200 gair) yn Ffrangeg/Almaeneg/Sbaeneg am y stori fer/nofel graffig neu sgript ffilm rydych chi wedi'i astudio. Mae'r uned hon werth 15% o'r cymhwyster.

### Uned 3 – Gwrando

Mae Uned 3 yn arholiad gwrando gwerth 20% o'r cymhwyster. Byddwch yn gwrando ar amrywiaeth o siaradwyr yn Ffrangeg/Almaeneg/Sbaeneg ac yn dangos eich dealltwriaeth o'r hyn rydych wedi'i glywed, er enghraifft, drwy ateb cwestiynau amlddewis neu gwestiynau yn Gymraeg/Saesneg.

### Uned 4 – Darllen ac Ysgrifennu

Mae Uned 4 yn arholiad ysgrifenedig gwerth 35% o'r cymhwyster. Ar gyfer yr asesiad hwn, byddwch yn darllen testunau yn Ffrangeg/Almaeneg/Sbaeneg ac yn ateb cwestiynau amdanynt yn Gymraeg/Saesneg. Bydd gofyn i chi hefyd gwblhau cyfieithiad i'r Gymraeg/Saesneg. Yn olaf, byddwch yn gallu dangos eich sgiliau iaith ysgrifenedig drwy ysgrifennu hyd at 120 o eiriau yn Ffrangeg/Almaeneg/Sbaeneg o ddewis o 3 chwestiwn.

## PA SGILIAU FYDDAF YN EU DATBLGU?

- Byddwch yn dysgu sut i gyfathrebu'n glir ac yn gywir ar lafar ac yn ysgrifenedig.
- Byddwch yn datblygu eich dealltwriaeth o'r iaith drwy ddarllen a gwrando ar eitemau yn Ffrangeg/Almaeneg/Sbaeneg.
- Byddwch yn dysgu sut i gyfrannu at drafodaethau a sgyrsiau.
- Byddwch yn datblygu ymwybyddiaeth o ddiwylliant a chymdeithas y gwledydd a'r cymunedau lle mae Ffrangeg/Almaeneg/Sbaeneg yn cael ei siarad.
- Byddwch yn gwneud cysylltiadau â'ch iaith eich hun.

## GYRFAOEDD MEWN FRANGEG/ALMAENEG/SBAENEG

Gall TGAU mewn Ffrangeg/Almaeneg/Sbaeneg agor byd o gyfleoedd i chi. Mae ystod eang o lwybrau gyrfa y gallech eu dilyn gyda TGAU mewn ieithoedd, gan gynnwys yn y diwydiant twristiaeth fwy traddodiadol gysylltiedig, y lluoedd arfog, gwasanaethau iaith megis cyfieithu a chyfieithu ar y pryd, addysgu a gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, y fantais fawr o gael sgiliau mewn iaith arall yw y gallant eich cynorthwyo drwy gydol eich bywyd a'ch gyrfa; yn ddefnyddiol nid yn unig ar gyfer teithio, gwneud ffrindiau a datblygu gwerthfawrogiad a dealltwriaeth gyffredinol o hunaniaeth a diwylliant pobl eraill, ond hefyd o bosibl yn ddefnyddiol ar gyfer UNRHYW yrfa a ddewisir. Mae cymhwyster mewn Ieithoedd Rhyngwladol yn dangos eich bod yn gyfathrebwr da, yn barod i ddysgu, addasu a chamu allan o'ch "man cysurus" – yn ddymunol iawn i unrhyw ddarpar gyflogwr. Efallai y bydd hefyd o ddiddordeb i chi wybod yn y byd busnes byd-eang sydd ohoni, mae'n hysbys bod gweithwyr sydd â sgiliau mewn ieithoedd rhyngwladol yn denu cyflogau uwch! Beth sydd ddim i'w hoffi?

**DYSGWCH FWY - SIARADWCH Â'CH ATHRO HEDDIW!**

